

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Innermost Secrets, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 6 Rhagfyr
2017

Dyddiad cyhoeddi: 7 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	15
4.	Beth nesaf?.....	18
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Innermost Secrets, Ash Tree Private Medical Clinic, 3 Ash Tree Court, Woodsy Close, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RW, ar 6 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Canfuom fod staff yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd croesawgar a phrofiad cadarnhaol i'r claf.

Canfuom fod angen i'r gwasanaeth wella rhai elfennau o reoli staff, gan gynnwys hyfforddiant ac arfarniadau.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwnaethom arsylwi ar ryngweithio cynnes, cadarnhaol a phroffesiynol rhwng staff a chleifion
- Roedd gwybodaeth i gleifion yn gyfredol ac roedd yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol
- Roedd cofnodion cleifion yn fanwl ac o safon dda
- Dangoswyd strwythur rheoli clir, a dywedodd staff wrthym fod uwch-staff yn eu cefnogi yn eu rolau

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen derbyn caniatâd ysgrifenedig gan gleifion ar gyfer pob triniaeth
- Mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer arfarniadau staff, dilysu staff a rhaglen hyfforddiant staff
- Rhaglen ehangach o weithgarwch archwilio wedi'i dogfennu

Gwnaethom nodi toriadau rheoleiddiol yn ystod yr arolygiad hwn mewn perthynas â diweddariadau i'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, gan gynnwys diweddariadau i fanylion cyswllt AGIC a chrynodeb o adborth cleifion. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan y gallai methiant i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaid â rheoliadau.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Innermost Secrets wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaethau obstetrig, gynaeleg, mamol, meddyginiaeth ffetysol ac anffrwythlondeb yn Ash Tree Private Medical Clinic, 3 Ash Tree Court, Woodsy Close, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RW.

Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 10 Chwefror 2012.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys meddyg, pedwar sonograffydd rhan-amser, pedwar cynorthwydd gofal mamolaeth rhan-amser, rheolwr swyddfa, a thri aelod o staff gweinyddol.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Gofal cynenedigol preifat
- Sganiau beichiogrwydd cynnar
- Profion am syndrom Down
- Sganiau bondio gyda'ch baban 3D/4D
- Sgrinio am gyneclampsia, esgor cyn pryd a streptococcus grŵp B
- Gwiriadau ar fabanod newydd-anedig ac ar galonnau babanod sy'n chwe wythnos oed neu'n hŷn
- Sgrinio iechyd ar gyfer menywod sy'n 16 mlwydd oed neu'n hŷn

Gwasanaethau gynaeleg cyffredinol, gan gynnwys ymchwiliadau anffrwythlondeb a thriniaethau di-HFEA¹ ☐

☐ Gweinyddu presgripsiynau preifat

¹ Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion, mewn modd diogel ac effeithiol. Roedd cleifion yn derbyn gwybodaeth fanwl a oedd yn benodol i'w hanghenion personol eu hunain. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau ei fod yn cael caniatâd ysgrifenedig i driniaeth gan bob claf.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cafodd cyfanswm o 32 o holiaduron eu cwblhau a'u dychwelyd. Roedd adborth cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nododd cleifion fod y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer yn rhagorol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Caiff y clinig ei redeg mewn modd proffesiynol, ac mae'n cynnig empathi a chefnogaeth. Rwyf bob amser wedi derbyn gofal, gwybodaeth a chyngor rhagorol. Mae staff yn gyfeillgar ac yn wybodus ac mae'r amgylchedd yn ddymunol ac yn llonyddol. Mae'n enghraifft wych o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar y claf."

"O'r alwad ffôn gyntaf un, mae'r holl staff wedi bod yn broffesiynol, yn gwrtais ac yn ofalus ynghylch y sefyllfa."

"Clinig ardderchog, staff yn gymwynasgar iawn, a rhoesant y cymorth a'r cyngor yr oedd eu hangen arnaf ar yr adeg gywir. Triniaeth wych. Diolch."

"Mae gwasanaeth ardderchog yn cael ei ddarparu. Proffesiynol a gwybodus dros ben ond, yn fwy na hynny, roedd y staff yn dangos gofal a chynhesrwydd tuag ataf i a'm partner. Byddwn yn argymhell y gwasanaeth gofal iechyd hwn i unrhyw un."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Canfuom fod amrywiaeth o wybodaeth ar gael yn yr ardal aros a oedd yn briodol i'r gwasanaethau a ddarperir gan y clinig. Mewn sampl o gofnodion cleifion, canfuom dystiolaeth y caiff gwybodaeth fanwl a phenodol ei darparu i gleifion, yn dibynnu ar anghenion unigol y claf.

Urddas a pharch

Gwnaethom arsylwi bod staff yn siarad â chleifion mewn modd proffesiynol, cwrtais a pharchus. Dywedodd bron pob claf a gwblhaodd holiadur fod staff bob amser yn gwrtais, yn garedig ac yn sensitif wrth roi gofal a thriniaeth. Cynhaliwyd ymgynghoriadau mewn ystafell gynghori breifat, i sicrhau bod yr holl drafodaethau yn cynnal preifatrwydd cleifion. Canfuom fod yr ystafelloedd triniaeth dan glo pan oeddent yn cael eu defnyddio, er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Roedd sampl o gofnodion cleifion y gwnaethom eu hadolygu yn dangos bod gwybodaeth fanwl yn cael ei darparu i gleifion, yn dibynnu ar eu hanghenion unigol. Canfuom fod yr wybodaeth hon yn berthnasol a chyfredol ac yn adlewyrchu canllawiau cenedlaethol. Roedd cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaethau.

Er y canfuom fod caniatâd ar lafar i driniaethau wedi'i geisio gan gleifion, mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig i driniaethau'n cael ei geisio a'i ddogfennu gan bob claf, lle bo'n briodol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n rhaid cael caniatâd ysgrifenedig i driniaeth ar gyfer pob claf, lle bo'n briodol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd posterï a thaflenni gwybodaeth ar gael ynglŷn â'r driniaeth sy'n cael ei chynnig yn y clinig. Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth hon ar gael yn Saesneg yn unig.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedodd staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad y caiff amserau apwyntiadau eu haddasu i ddiwallu anghenion pob unigolyn, yn ddibynnol ar y driniaeth a gynigir. Yn ogystal, dywedwyd wrthym, a gwnaethom arsylwi, fod gan y gwasanaeth ddigon o staff i ddiwallu anghenion y cleifion, er

mwyn helpu i sicrhau y caiff y gofal a'r driniaeth eu darparu mewn modd diogel ac effeithiol i gleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Canfuom fod gan y gwasanaeth bolisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd yr ardal aros a'r ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar lawr cyntaf yr adeilad, a gellid cael mynediad trwy risiau neu lifft, sy'n golygu y gallai cleifion sydd ag anawsterau symudedd gael mynediad at y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn gallu cynnig cyfleusterau toiled ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud ymdrech weithredol i gael adborth gan gleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir iddynt, trwy holiaduron electronig. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y gyfradd ddychwelyd yn isel iawn, a'u bod yn ystyried dosbarthu holiaduron papur eto er mwyn cynyddu'r gyfradd ddychwelyd. Gwelsom fod dadansoddiad o adborth gan gleifion wedi'i gynhyrchu, ond nid oedd hwn wedi'i gynnwys o fewn y canllaw i gleifion. Gwneir argymhelliad ynghylch hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn fodlon fod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth mewn modd sy'n canolbwyntio arnynt a bod cofnodion cleifion yn drylwyr ac yn gynhwysfawr. Gwnaethom argymhell y dylid cyflwyno rhaglen ehangach o weithgareddau gwella ansawdd clinigol.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i warchod diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Canfuom fod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a thu allan, a bod y ddwy ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

- Gwnaethom drafod â'r rheolwr cofrestredig y dylai ystyried cael pecyn argyfwng yn y gwasanaeth pe bai claf yn llewygu. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod wedi ystyried cael pecyn argyfwng yn y gwasanaeth, gan gynnwys diffibriliwr allanol awtomatig, ond nid oedd i'w weld yn hanfodol ar y pryd. Gwnaethom argymhell y gallai'r rheolwr cofrestredig geisio cyngor pellach ynghylch yr angen a'r gofynion am becyn argyfwng sy'n addas ar gyfer y gwasanaeth gan y Cyngor Dadebru (DU)² a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.³ Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Canfuom fod gan y gwasanaeth arferion atal a rheoli heintiau da. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol a staff yn ymarfer 'noeth islaw'r benelin'⁴ i alluogi dull effeithiol o olchi dwylo. Gwelsom dystiolaeth

² <https://www.resus.org.uk/resuscitation-guidelines/>

³ <http://www.hse.gov.uk/firstaid/index.htm>

⁴ Arfer da cydnabyddedig sy'n galluogi staff i olchi eu dwylo a'u harddynau yn effeithiol.

hefyd o arferion golchi dwylo da a defnydd o gyfarpar meddygol untro lle'r oedd hyn yn briodol. Lle y defnyddid cyfarpar ailddefnyddiadwy, gwelsom brosesau priodol ar waith ar gyfer glanhau a dadheintio. Roedd chwiliedyddion uwchsain yn cael eu dadheintio cyn eu defnyddio am y tro cyntaf bob dydd, rhwng gweld cleifion ac ar ôl gweld y claf diwethaf, trwy ddefnyddio system 'amlsychu' ddilyniannol. Roedd y broses ddadheintio yn cael ei chofnodi ac roedd yn olrheiniadwy am fod staff yn cofnodi'r dyddiad a'r amser, rhifau cyfresol y nwyddau a ddefnyddiwyd, a phwy gwblhaodd y dasg.

Disgrifiodd staff yn fanwl y protocol glanhau sydd ar waith rhwng gweld cleifion, sy'n hybu trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod naill ai'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' fod yr amgylchedd yn lân ac yn dachus.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Nid oedd y gwasanaeth wedi nodi unrhyw faterion diogelu. Roedd gweithdrefn a pholisi diogelu oedolion priodol ar waith i gefnogi staff pe bai angen. Gwnaethom ystyried y broses recriwtio sydd ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff a chanfuom fod y gwiriadau sy'n ofynnol gan y rheoliadau wedi'u cwblhau cyn dechrau mewn swydd.

Canfuom hefyd fod y gwasanaeth yn defnyddio hebryngwr priodol, er mwyn gweithredu fel dull diogelu ar gyfer cleifion a staff yn ystod yr holl driniaethau.

Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Dywedwyd wrthym fod staff clinigol yn cwblhau'r hyfforddiant hwn fel rhan o'u hyfforddiant cyfredol mewn datblygiad proffesiynol parhaus o fewn y GIG, sydd hefyd yn eu cyflogi. Gwneir argymhelliad mewn perthynas â hyfforddiant yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Rheoli gwaed

Canfuom fod gan y gwasanaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y gwaed a gymerir gan gleifion er mwyn ei brofi yn cael ei gludo'n ddiogel.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y gwasanaeth yn defnyddio peiriant uwchsain obstetrig⁵ a oedd dan gytundeb cynnal a chadw blynyddol, a gwelsom dystiolaeth ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn helpu i ddangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom edrych ar sampl o 13 o gofnodion cleifion a chanfuom eu bod yn fanwl ac yn drylwyr a'u bod yn darparu manylion cynhwysfawr ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y ffordd y mae'r gwasanaeth yn mynd ati i fynd ar drywydd canlyniadau cleifion ar gyfer rhai triniaethau a gynigir, fel modd o fesur effeithiolrwydd y gofal a ddarperir. Gwnaethom gydnabod y maes hwn yn arfer da.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Trwy drafodaethau â'r rheolwr cofrestredig, gwnaethom nodi bod y gwasanaeth yn cwblhau amrediad cyfyngedig o weithgareddau gwella ansawdd ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys gwiriad iechyd a diogelwch wythnosol o'r amgylchedd, i helpu i nodi unrhyw beryglon neu feysydd posibl i'w gwella, a dosbarthu holiaduron cleifion.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig wedi creu cynllun gweithredu llywodraethol yn ddiweddar er mwyn monitro amrediad o feysydd o fewn y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys profion dyfeisiau cludadwy, hyfforddiant staff, asesiadau cyfarpar sgrin arddangos (DSE), arfarniadau staff, ffeiliau staff, ac adborth gan gleifion. Roedd y rhain wedi'u graddio yn seiliedig ar flaenoriaeth i fynd i'r afael â hwy yn y dyfodol agos. Yn ogystal, gwnaethom drafod â'r rheolwr cofrestredig am gynnwys amrediad o weithgareddau archwilio clinigol a gwella, er mwyn helpu i fonitro'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rheolwr cofrestredig yn agored i'r awgrymiadau a ddarparwyd, a chytunodd i gyflwyno rhaglen ehangach o weithgarwch archwilio.

⁵ Techneg delweddu diagnostig yn seiliedig ar ddefnyddio uwchsain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno amrediad ehangach o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodir.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Canfuom fod y gwasanaeth yn defnyddio system gyfathrebu electronig, sy'n galluogi staff clinigol i gael mynediad at wybodaeth cleifion a'u canlyniadau i ffwrdd o'r safle ac mewn modd diogel. Roedd hyn yn golygu bod staff clinigol yn gallu dehongli gwybodaeth yn gyflym, yn ogystal â chefnogi staff o fewn y gwasanaeth, heb orfod bod yn bresennol. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi arwain at staff yn teimlo bod ganddynt gefnogaeth ar y safle hyd yn oed pan na fydd uwch-staff clinigol yn bresennol.

Rheoli cofnodion

Canfuom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel i atal unrhyw fynediad heb awdurdod. Roedd cofnodion papur wedi'u lleoli mewn cwpwrdd y gellid ei gloi, ac roedd cofnodion electronig wedi'u gwarchod â chyfrinair.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, a'u bod yn cael eu cefnogi gan strwythur rheoli clir.

Gwnaethom argymhell bod rhaid nodi a datblygu hyfforddiant ar gyfer yr holl aelodau o staff a oedd yn benodol i anghenion y gwasanaeth.

Canfuom fod angen cyflwyno arfarniadau staff, ac roedd angen cryfhau'r trefniadau i gadarnhau statws cofrestru proffesiynol y staff.

Y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd y tîm yn Innermost Secrets yn dîm bach, sefydledig, ac roeddent yn ddangos llinellau cyfrifoldebau clir. Roedd staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Canfuom fod y cymorth a ddarperid i staff ac argaeledd y rheolwr cofrestredig yn gadarnhaol.

Gwnaethom adolygu datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion y gwasanaeth. Canfuom fod angen gwneud diweddariadau bach i'r rhain, er mwyn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC a chrynodeb o'r adborth gan cleifion o fewn y canllaw i gleifion. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ill dau yn cael eu harddangos o fewn ardal aros y cleifion, er mwyn i gleifion gael mynediad hawdd atynt, ac roedd hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynghylch y gwasanaethau a ddarperir.

Canfuom fod amrediad cynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, a oedd yn darparu gwybodaeth fanwl i staff ac i gleifion. Canfuom fod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, er mwyn helpu i sicrhau bod gan staff a chleifion fynediad at yr wybodaeth fwyaf cyfredol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid diweddarau'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, yn unol â'r rheoliadau.

Mae'n rhaid darparu copïau diweddaredig o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion i AGIC.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwyno ar waith, a oedd yn amlinellu'r broses ar gyfer cleifion, pe baent yn dymuno codi pryder. Roedd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei chynnwys o fewn y canllaw i gleifion, a oedd yn cael ei arddangos yn yr ardal aros er mwyn i gleifion ei ddarllen. Canfuom fod gan y gwasanaeth broses addas ar waith ar gyfer delio â chwynion, a chanfuom dystiolaeth hefyd fod y gwasanaeth wedi dysgu ac wedi gwneud newidiadau o ganlyniad i gŵyn. Roedd angen diweddarau'r polisi cwynion i sicrhau bod y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC yn cael eu cynnwys.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno i gynnwys manylion cyswllt cywir AGIC.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi'i effeithio gan absenoldebau diweddar gan rai aelodau o staff. Er y canfuom fod y gwasanaeth yn gallu rheoli a chyflenwi'r absenoldebau yn y tymor byr, gwnaethom argymhell y dylai'r gwasanaeth ystyried y ffordd orau i fynd i'r afael â'r mater yn y tymor hir, er budd yr holl aelodau o staff. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

Nid oedd gan y gwasanaeth raglen ddiffinedig o hyfforddiant ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol. Roedd staff clinigol hefyd yn cael eu cyflogi o fewn y GIG, a dywedwyd wrthym fod dealltwriaeth fod datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant proffesiynol yn cael eu cwblhau o fewn y sefydliad hwnnw. Er mwyn sicrhau bod staff sydd wedi'u cyflogi o fewn y gwasanaeth wedi'u hyfforddi'n addas a'u bod yn gymwys, gwnaethom argymhell y dylid cyflwyno rhaglen ddiffinedig o hyfforddiant ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod hyn wedi'i adnabod cyn yr arolygiad, a chytunodd i gyflwyno cynllun hyfforddiant addas.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff clinigol ac anghlinigol sydd wedi'u cyflogi o fewn y gwasanaeth.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau staff a chanfuom fod graddau amrywiol o wybodaeth yn cael eu cynnwys y tu mewn. Canfuom, lle bo'n briodol, fod gan staff gytundebau cyflogi, disgrifiad swydd, ac adroddiad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Lle bo staff clinigol yn hunangyflogedig, canfuom dystiolaeth fod cytundebau ymarferwyr hunangyflogedig ar waith, a oedd hefyd yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau. Roedd y rhain yn cael eu diweddarau'n flynyddol. Er y gwelsom dystiolaeth o gadarnhau statws cofrestriad proffesiynol a chymwysterau wrth gyflogi staff am y tro cyntaf, nid oeddem yn gallu gweld cadarnhad fod statws cofrestriad proffesiynol y staff wedi cael ei gadarnhau ar sail barhaus. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau ar staff clinigol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gofrestredig â'r corff proffesiynol perthnasol, er mwyn eu galluogi i ymarfer. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i gryfhau'r broses.

Dywedwyd wrthym nad oedd arfarniadau staff yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn derbyn arfarniadau rheolaidd o'u gwaith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cwblhau'n rheolaidd i gadarnhau bod staff clinigol wedi'u cofrestru â'u corff proffesiynol priodol, er mwyn eu galluogi i ymarfer.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff proses arfarnu staff ei chyflwyno.

4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Innermost Secrets

Dyddiad yr arolygiad: 6 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid ceisio a dogfennu cydsyniad ysgrifenedig pob claf i driniaethau, lle y bo'n briodol.	Rheoliad 17 (1) (3)	Protocol ar gyfer cydsyniad ysgrifenedig i'w gyflwyno ar unwaith, wedi'i gefnogi gan staff perthnasol a hyfforddiant ymarferwyr	Dr RB Beattie	Ar unwaith WEDI'I GYFLAWNI
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno amrediad ehangach o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodir.	Rheoliad 19 (1) (a)	'Cynllun Gwella Ansawdd ac Archwilio Clinigol' blynyddol i'w ddatblygu, ar gyfer ei gyflwyno a'i adrodd trwy gydol 2018	Dr RB Beattie	28 Chwefror 2018 – cyflwyno trwy gydol 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn unol â'r rheoliadau. Dylid darparu copi o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion wedi'u diweddaru i AGIC.	Rheoliad 6 (1) (2) Atodlen 1 Rheoliad 7 (1) (e) (f)	Diweddaru'r datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion i gynnwys cyfeiriad cywir ar gyfer AGIC, yn ogystal ag adborth gan gleifion. Darparu copïau o'r dogfennau wedi'u diweddaru i AGIC.	Dr RB Beattie	Ar unwaith WEDI'I GYFLAWNI
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r weithdrefn gwyno i gynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer AGIC.	Rheoliad 24 (4) (a)	Diweddaru'r weithdrefn gwyno i gynnwys y cyfeiriad cywir ar gyfer AGIC.	Dr RB Beattie	Ar unwaith WEDI'I GYFLAWNI
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen hyfforddiant ar gyfer staff clinigol a staff nad ydynt yn glinigol sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth.	Rheoliad 20 (1)(a)	Datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddiant, gan gynnwys cofnodi'r holl hyfforddiant ar ffeiliau personél mewn modd ardystiedig.	Dr RB Beattie	31 Mawrth 2018 – cyflwyno trwy gydol 2018
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau eu cwblhau yn rheolaidd i gadarnhau bod staff clinigol wedi'u cofrestru â'u corff proffesiynol priodol, er mwyn eu galluogi i	Rheoliad (9) (1) (h) (i) Rheoliad 20	Cyflwyno rhestr wirio staff ac ymarferwyr, gan gynnwys cadarnhad blynyddol o gofrestriadau, er mwyn	Dr RB Beattie	31 Ionawr 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ymarfer. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y cyflwynir proses ar gyfer arfarnu staff.	(2) (a)	ymarfer â'r corff proffesiynol perthnasol. Cyflwyno templed arfarnu a chwblhau arfarniadau 2017 erbyn diwedd Mawrth 2018		31 Mawrth 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Dr Robert Bryan Beattie

Swydd: Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Innermost Secrets Ltd

Obstetregydd Ymgynghorol/Ymgynghorydd mewn Meddyginiaeth Ffetysol

Dyddiad:29 Ionawr 2018